# Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
# Adroddiad Blynyddol
# 2020/21



## Gyda'n gilydd
rydyn ni wedi galluogi'r
Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
i gamu'n NERTHOL i 2021/22

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Achieving More Together /
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

"Waeth faint o heriau sy'n dod i'r amlwg, dyna'r peth gorau i mi ei wneud erioed.

Mae'n hudolus, gweld y byd trwy lygaid fy merch, gan wybod sut fywyd oedd ganddi ... dwi'n teimlo mor ddiolchgar. Pe bawn i'n gallu annog un person i'w wneud. Mae'n wych."

*Amanda a Martin a fabwysiadodd ferch*



# Rhagair

**Nid oes angen dweud bod 2020/21 yn flwyddyn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd. Yn gynnar yn 2020, roedd gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn gweithio'n galed, a chyda llwyddiant, ar gynyddu recriwtio mabwysiadwyr, lleihau'r nifer o blant a oedd yn aros, a gwella cymorth mabwysiadu yng nghyd-destun cytundeb partneriaeth newydd a oedd â'r nod o ail-bennu sut y mae'r GMC yn gweithredu.**

**Fel pob gwasanaeth ym mis Mawrth 2020, roedd angen i ni addasu'n gyflym tra'n delio gyda'r sioc a'r ansicrwydd a grëwyd. Yn weithredol, roedd y cyfan ac eithrio'r gwaith mwyaf critigol, wedi mynd yn rhithwir ac roedd angen i ni ail-ganolbwyntio capasiti cenedlaethol i gefnogi cyflenwad gwasanaeth gwahanol, ynghyd â chadw at waith strategol parhaus.**

Roedd cyfyng-gyngor gwirioneddol i'r gwasanaethau mabwysiadu:

- A ddylen ni barhau i symud plant?
- Sut allwn ni gydbwyso diogelwch corfforol gyda diogelwch a lles seicolegol hirdymor?
- Sut allwn ni barhau i recriwtio mabwysiadwyr mewn modd sy'n sensitif i'r cyd-destun?

Ni wnaeth y dilemâu yma ein stopio, ac roeddem yn parhau i gyflenwi gwasanaethau ledled Cymru diolch i ymdrechion anhygoel a gallu i addasu pawb dan sylw:

- Roeddem yn parhau i leoli plant a oedd yn golygu proses asesu risg fanwl a groesawyd gan bawb ac a ddefnyddiwyd yn helaeth.
- Aeth recriwtio mabwysiadwyr yn ei flaen: ein hyrwyddwyr mabwysiadu yn rhoi'n hael o'u hamser ac yn rhoi straeon personol ar gyfer ein hymgyrch 'Bod yn rhiant'.
- Cynhyrchwyd Podlediad dwyieithog proffesiynol o ansawdd uchel gyda mwy o'n mabwysiadwyr a'n staff gwych Cymraeg. Roedd yn canolbwyntio ar y broses asesu a chymeradwyo ac mae'n parhau i wneud yn dda yn siartiau Apple, Google, a Spotify.
- Cefnogwyd a galluogwyd i staff barhau i wneud yr hyn maent yn ei wneud, ond mewn ffyrdd gwahanol iawn.
- Gan weithio ar y cyd gyda'n cydweithwyr a'n partneriaid iechyd, crëwyd ffordd o reoli archwiliadau meddygol MT ar gyfer mabwysiadwyr, nad oedd yn beth hawdd iawn mewn argyfwng iechyd cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod gydag edmygedd a diolch mawr i bawb:

- Mabwysiadwyr a gofalwyr maeth sydd wedi mynd i eithafion eithriadol i wneud i bethau ddigwydd i'r plant maent yn gofalu amdanyn nhw, rhannu rheoli risg gyda ni wrth ddelio gyda gweithio o'u cartref, gwaith ysgol yn y cartref a'u heriau personol eu hunain.
- Hyrwyddwyr mabwysiadu am eu cefnogaeth barhaus.
- Staff, beth bynnag fo'u rôl, am eu gwaith manwl, galluog mewn amgylchedd heriol iawn, a'u haddasrwydd a'u dyfeisgarwch wrth wneud pethau'n wahanol.

Gyda'n gilydd rydym wedi galluogi i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gynnal gwasanaethau a pharhau i wella ar y cyd a bod â'r gwytnwch i gamu i 2021/22 ar gyfer yr hyn rydym oll yn gobeithio y bydd yn flwyddyn o adferiad.



**Cynghorydd Alan Lockyer**
Cyd-gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu



**Phil Hodgson**
Cadeirydd Annibynnol y Grŵp Cynghori



**Suzanne Griffiths**
Cyfarwyddwr

# Cyflwyniad

**Bwriad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru (GMC) yw cydweithredu i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.**

**Ers mis Tachwedd 2014, mae wedi dwyn at ei gilydd yr holl wasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol yn bump corff cydweithredol rhanbarthol, gyda chydgysylltiad ac arweiniad yn cael ei ddarparu gan dîm bychan canolog a Chyfarwyddwr. Mae Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (AMG) yng Nghymru yn bartneriaid allweddol yn hyn o beth, ynghyd ag asiantaethau eraill gan gynnwys iechyd ac addysg.**

## TÎM CANOLOG

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – Tîm Canolog**
c/o Cyngor Dinas Caerdydd,
Ystafell 409, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW
029 2087 3927
contact@adoptcymru.com
www.adoptcymru.com

## CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU
Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Adoption Mid & West Wales

**Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Tre Ioan,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB
01267 246970

Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian,
Aberhonddu, Powys, LD3 7HR
01597 827666
adoptionenquiries@carmarthenshire.gov.uk
www.adoptionmwwales.org.uk

## Gogledd CYMRU
Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

**Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**
3ydd Llawr, Stryd Lambpit,
Wrecsam, LL11 1AR
01978 295311
adoption@wrexham.gov.uk
www.northwalesadoption.gov.uk

## DE DDWYRAIN CYMRU
Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Casnewydd

South East Wales Adoption Service – Achieving More Together | Gwasanaeth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru – Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

**Gwasanaeth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru**
Adain y Gogledd, 2il Lawr Bloc B,
Tŷ Mamhilad, Stad Parc Mamhilad,
Pont-y-pŵl, Torfaen, NP40HZ
01495 355766
adoption@blaenau-gwent.gov.uk
www.blaenau-gwent.gov.uk

## Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD
Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf, Cardiff, Vale of Glamorgan

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd


**Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd**
Llawr 1af, Swyddfa'r Doc,
Heol yr Isffordd, Y Barri CF63 4RT
0800 0234 064
adoption@valeofglamorgan.gov.uk
www.adopt4vvc.org

## BAE'R GORLLEWIN
Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr

Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin | Western Bay Adoption Service

**Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin**
Cwrt Tregelles, Neath Abbey Road,
Castell-nedd, SA10 7DF
0300 365 2222
enquires@westernbayadoption.org
www.westernbayadoption.org

## Pob Gwirfoddol Cymru Wasanaethau Asiantaethau Mabwysiadu




### AFA CYMRU

**AFA Cymru**
G14, Tŷ Antur, Enterprise House,
Navigation Parc,
Abercynon, CF45 4SN
029 2076 1155
Info-afa@stdavidscs.org
www.afacymru.org

### ADOPTION UK

**Adoption UK**
Stiwdios Penhaved,
Penhaved Street,
Grangetown,
Caerdydd, CF117LU
029 2023 0319
www.adoptionuk.org

### BARNARDO'S CYMRU

**Barnardo's Cymru Adoption and Fostering Services**
Tŷ Britannia, Van Road,
Caerffili, CF83 3GG
02920 484316
adoptionandfosteringservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/adoption

### CYMDEITHAS PLANT DEWI SANT

**Cymdeithas Plant Dewi Sant**
28 Plas-y-parc, Caerdydd,
CF10 3BA
029 2066 7007
info@stdavidscs.org
www.adoptionwales.org

# Blaenoriaethau ar gyfer 2020/21



"Y diwrnod y gwnaethon ni yrru draw, o'r diwedd, ar ddiwrnod cyntaf y cyflwyniadau, roedd e'n sefyll wrth y ffenestr yn wên o glust i glust, a dyna oedd y teimlad mwyaf personol, ond anhygoel ... roedd y teimlad hwnnw mor wych."

*Ben ac Adam – a fabwysiadodd eu mab*

**Nodir isod flaenoriaethau gwella'r GMC ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn dangos faint sydd wedi ei gyflawni.**

# Lleoli mwy o blant

- Cynyddu recriwtio mabwysiadwyr i ddelio gyda nifer ac anghenion y plant sy'n aros, gan gynnwys defnyddio 'Mabwysiadu Gyda'n Gilydd' ar gyfer y plant sy'n aros hiraf
- Parhau i ymgorffori'r Gofrestr Fabwysiadu ar gyfer Cymru

# Parhau i wella cymorth mabwysiadu

- Parhau i weithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu a chynlluniau buddsoddi
- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth am fabwysiadu

# Meddwl at y dyfodol

- Parhau i wella'r fframwaith cyfreithiol, polisi a thystiolaeth sy'n effeithio mabwysiadu
- Parhau i annog dealltwriaeth a sgiliau'r gweithlu
- Parhau i gyd-gynhyrchu a defnyddio gwybodaeth o ymgysylltu

# Lleoli mwy o blant

Cynyddu recriwtio mabwysiadwyr i ddiwallu anghenion a niferoedd plant sy'n aros, gan gynnwys drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd ar gyfer y plant sy'n aros hiraf.

## Recriwtio

**Ein nod ar gyfer eleni oedd adeiladu ar y cynnydd yn y gymeradwyaeth o fabwysiadwyr a welwyd yn 2019/20 a chynyddu'r nifer o blant a leolwyd.**

Er gwaethaf heriau arwyddocaol y pandemig, parhaodd y cynnydd oherwydd ymatebolrwydd a ffocws pob gwasanaeth.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Bu i ni lobio Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus i lacio gweithrediad y broses dau gam newydd ar gyfer asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr, trefniadau sy'n dal i fodoli adeg ysgrifennu hyn.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Datblygwyd canllawiau newydd ar gyfer gwasanaethau yn gyflym a'u gweithredu i adlewyrchu hyn.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Crëwyd 'Pecyn Adnoddau' o ymarferiadau a deunydd darllen ar gyfer darpar fabwysiadwyr, a'i gyflwyno a'i roi ar y wefan genedlaethol.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Ni ellir cwblhau asesiad mabwysiadwr heb ymweliad â'r cartref ond gellir gwneud llawer yn rhithwir. Datblygodd ein rhanbarth Cymoedd a Chaerdydd broses ar gyfer asesiad rhannol arlein / rhannol bersonol a rannwyd ar draws Cymru a'i weithredu.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Ar ôl rhai heriau, buom yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd a Llywodraeth Cymru i gytuno proses ar gyfer asesiadau 'rhithwir' gan feddygon teulu a alluogodd i'r ochr feddygol o asesiadau i barhau.

### EIN LLWYDDIANNAU:

Wedi ei addasu i fod yn sensitif i'r sefyllfa, aeth y marchnata rhagddo gan adnewyddu 'bod y rhiant y gallwch fod'. Cafwyd ymgyrch recriwtio ar y teledu dros yr haf ac yna straeon ar ein gwefan gan ein hyrwyddwyr mabwysiadu, yn cynnwys teulu a fabwysiadodd 3 o frodyr a chwiorydd a mabwysiadwyr gwrywaidd sengl.

"Rydych chi'n gwybod bod gennych chi'r sgiliau hynny oherwydd eich bod wedi bod trwy'r broses ac mae wedi bod yn hir ac yn fanwl ac rydych chi'n gwybod y gallwch ddiwallu anghenion y plentyn hwn, ac mae'n cymryd amser."

*Rachel a'i gŵr a fabwysiadodd 2 blentyn*

## EIN LLWYDDIANNAU:

Aeth Wythnos Fabwysiadu Genedlaethol 2020 arlein yn llwyr. Roedd #SiaradAmFabwysiadu yn cynnwys ffocws ar fabwysiadu LGBT+ a lansio ein Podlediad 'Dweud y Gwir yn Blaen'.


## EIN LLWYDDIANNAU:

Rydym yn falch iawn o fod wedi datblygu'r Podlediad 6 phennod yma yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn cynnwys mabwysiadwyr o bob cwr o Gymru, mae'n canolbwyntio ar ddod yn fabwysiadwr, ac mae wedi cael adborth rhagorol a sgoriau uchel yn y siartiau podlediad.



## Beth oedd y canlyniadau cyffredinol o ran recriwtio mabwysiadwyr yn 2020/21?

- Cynyddodd ymholiadau i fabwysiadu yn arwyddocaol gan 23%, mwy na’r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn rydym wedi ei weld ers 2014 ac roeddem yn gallu cychwyn mwy o asesiadau.
- Roedd cynnydd o 20% mewn asesiadau mabwysiadwyr. O ystyried y sefyllfa, roedd y cynnydd hwn yn annisgwyl ac mae’n darparu sylfaen positif wrth i ni ddod allan o’r pandemig.
- Roeddem wedi gobeithio gwella o ran y cynnydd mewn mabwysiadwyr cymeradwy a welwyd yn 2019/20, ond o ystyried y cyd-destun, cawsom ond ostyngiad bychan o 8% yn llai.
- Fodd bynnag, gwelsom gynnydd bach mewn amserlenni, a oedd yn aros ar gyfartaledd yn llai na 7 mis o’r cais i’r gymeradwyaeth.




> “Heddiw, mae mabwysiadu yn adlewyrchu cymdeithas, mae wedi symud i ffwrdd o’r proffil caeth a arferai fodoli.”
>
> *Tash – mabwysiadwr sengl a fabwysiadodd 2 blentyn*

# Asesiadau Mabwysiadwyr yn cychwyn

**2020/21 cynyddu asesiadau mabwysiadu gan ddechrau**

**20%**

Nifer yr asesiadau
345

**2016/17**
0%
Nifer yr asesiadau
246

**2017/18**
13%
Nifer yr asesiadau
277

**2018/19**
0%
Nifer yr asesiadau
278

**2019/20**
3%
Nifer yr asesiadau
287

# Cymeradwyo Mabwysiadwyr

**2020/21 gostyngodd cymeradwyaethau mabwysiadwyr gan**

**-8%**

Nifer y cymeradwyaethau
231

**2014/15**
0%
Nifer y cymeradwyaethau
294

**2015/16**
-10%
Nifer y cymeradwyaethau
266

**2016/17**
-11%
Nifer y cymeradwyaethau
236

**2017/18**
-10%
Nifer y cymeradwyaethau
212

**2018/19**
0%
Nifer y cymeradwyaethaus
212

**2019/20**
18%
Nifer y cymeradwyaethau
250

“Cawsom lyfr sain y gallwch ei recordio fel bod y llyfr yn dweud helo fi yw dad, neu beth bynnag pan fydd y plant yn agor y dudalen. Roedd gennym hwnnw, y tedis a dvd gyda ni yn chwarae o gwmpas ar y traeth. Dywedwyd wrthym am wisgo’r dillad y byddem yn eu gwisgo i’w cyfarfod.”

*Gareth a Clare – mabwysiadwyd 3 sibling*



## Lleoli Plant

Roedd symud plant yn ystod y pandemig yn arbennig o heriol.

I alluogi i'r gwasanaethau barhau, datblygwyd fframwaith a'i gyflwyno i gynorthwyo gyda chymryd penderfyniadau ac asesu risg. Cawsom drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i'w gwneud y glir bod symudiadau i leoliad yn rhywbeth a ganiatawyd ac i sicrhau bod eu canllawiau yn cefnogi hyn. Cynorthwyodd y fframwaith bob rhanbarth, awdurdod lleol ac AMG, gan gynnwys y gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, i barhau i wneud lleoliadau.

adopting together | mabwysiadu gyda'n gilydd

## Defnyddio'r gwasanaeth 'Mabwysiadu Gyda'n Gilydd', ar gyfer plant sy'n aros hiraf

Rhedodd y gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd ymgyrch deledu a chyfryngau cymdeithasol hefyd am dair wythnos yn yr hydref, a oedd yn cynnwys tri hysbyseb am blant penodol.

Cynhyrchodd hyn 26 o ymholiadau i'r gwasanaeth. Addasodd ei gymorth ymarferol a therapiwtig, gan ei wneud ar gael o bell ar sail grŵp ac 1 i 1, a lleolwyd 5 o blant o fewn eu gwasanaeth.



## Parhau i ymgorffori'r Gofrestr Fabwysiadu ar gyfer Cymru i gyflymu paru plant drwy gyfrwng hysbysiad cyflymach o blant a mabwysiadwyr yn unol â rheoliadau diwygiedig

Mae'r Gofrestr Fabwysiadu ar gyfer Cymru (CFC) yn wasanaeth arlein cwbl ddwyieithog i gael hyd i deuluoedd gyda mynediad a reolir i fabwysiadwyr. Mae'r tîm CFC yn gweithio'n agos gyda phob un o ranbarthau Cymru ac AMG i sicrhau bod plant a mabwysiadwyr yn cael eu cyfeirio at y Gofrestr o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r Gofrestr yn cael ei monitro'n rheolaidd a chynigir cymorth i'r Rhanbarthau a'r AMG i sicrhau bod yr wybodaeth a ddelir gan y Gofrestr y ddiweddaraf ac yn gywir.

**Cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhwng y tîm CFC a'r rhanbarthau/AMG. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar gynllunio digwyddiadau canfod teuluoedd, rhannu proffiliau plant sy'n aros a thrafod unrhyw faterion am ganfod teuluoedd o safbwynt y Gofrestr neu ranbarth/AMG.**

Mae cyfyngiadau iechyd cyhoeddus y pandemig Covid-19 wedi rhwystro gweithgareddau canfod teulu wyneb yn wyneb, megis Dyddiadau Gweithgareddau a Dyddiau Cyfnewid. O ganlyniad, datblygodd y Gofrestr ddull rhithwir o ganfod teuluoedd gyda digwyddiadau proffilio arlein.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym mis Mawrth 2021 yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a chafodd adborth positif gan fabwysiadwyr ac ymarferwyr, gan arwain at bump o ddigwyddiadau proffilio arlein pellach yn 2021/22. Mae dau Ddiwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu wyneb yn wyneb (un yn ne Cymru ac un yng ngogledd Cymru) wedi eu cynllunio hefyd a byddant yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf.


Mae'r Gofrestr Fabwysiadu yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd (MGG) i gynorthwyo gyda phlant ar y gofrestr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer yr MGG, yn enwedig y plant hynny sydd wedi aros, neu sy'n debygol o aros 9 mis + am leoliad. Mae'r CMC a'r gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn cyfarfod bob mis i olrhain plant unigol sydd naill ai wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth neu sy'n bodloni'r meini prawf atgyfeirio.

Mae'r gostyngiad bychan yn y nifer o gyfatebiadau yn debygol oherwydd effeithiau'r pandemig a'r oedi cychwynnol a achoswyd gan y cyfyngiadau.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Wales Adoption Register

## Beth oedd yr effaith gyffredinol o ran lleoli plant yn 2020/21?

- Cafwyd cyfanswm o 280 cyfatebiad yng Nghymru yn ystod 2020/21, gostyngiad bychan o'r 285 yn y flwyddyn flaenorol.
- Adnabuwyd 59 o'r rhain drwy'r Gofrestr o gymharu gyda 60 y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r gostyngiad bychan yn debygol o fod oherwydd effeithiau'r pandemig a'r oedi cychwynnol oherwydd y cyfyngiadau.
- Lleolwyd 261 o blant, dim ond 15% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.
- Yn ddealladwy, roedd arferion Covid-ddiogel, gan gynnwys hunanynysu teuluoedd ac asesiad risg manwl, yn cynyddu'r amserlen, ond arhosodd dan 11 mis o'r gorchymyn lleoli i'r lleoliad ei hun.
- Mae'r nifer o blant sy'n aros am leoliad wedi bod yn gostwng yn raddol dros y 3 blynedd ddiwethaf.
- Gan gymryd i ystyriaeth plant gyda chysylltiad cryf yn cael eu hystyried, roedd ychydig dros 160 o blant yn aros am leoliad ar ddiwedd mis Mawrth 2021.




> "Wel, roeddwn i'n meddwl y buaswn yn cael ymddeoliad tawel, ond ni ddigwyddodd hynny. Mae'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn rhywbeth llawer gwell. Ni allaf ddychmygu gwneud unrhyw beth a allai wneud i mi deimlo'n hapusach."

*Mae Malcolm yn fabwysiadwr hŷn a fabwysiadodd fab*

# Parhau i wella cymorth mabwysiadu

## Parhau i weithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu a'r cynlluniau buddsoddi

**Yn 2016, datblygodd y GMC ei gynllun strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru.**

Gyda'i symbol arbennig o ambarél, y weledigaeth dros amser oedd gwarantu 'Cynnig Craidd' o gymorth i bob plentyn a pherson ifanc a fabwysiadwyd yng Nghymru a'u rhieni, ynghyd ag eraill a effeithir gan fabwysiadu.

Y bwriad yw y bydd y 'Cynnig Craidd' hwn yn:

- Rhoi cymorth i deuluoedd mabwysiadol ar ddechrau'r broses ac yn y dyddiau cynnar i annog teuluoedd iach a hyderus.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fydd teuluoedd eu hangen ac mewn modd amserol fel bod unrhyw broblemau sy'n codi yn llai tebygol o fynd yn rhai mwy difrifol
- Rhoi cymorth parhau neu ail-fynediad hawdd i wasanaethau pan fo angen.

Roedd y pecyn buddsoddiad £2.3 miliwn mewn gwasanaethau mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn hwb gwirioneddol ac rydym yn ei ddefnyddio'n effeithiol i greu cynnig mwy cyson o gymorth ledled Cymru.



## Trosolwg o ddarpariaeth cymorth mabwysiadu yn 2020/21

**Roedd cymorth i deuluoedd mabwysiadol yn bwysicach nag erioed yn 2020, ynghyd â gwybodaeth i weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'n teuluoedd, ac fe wnaethon ni nifer o bethau i alluogi hyn:**

- Addaswyd y dudalen lanio ar y wefan genedlaethol a'r tudalennau cymorth mabwysiadu arni i roi gwybodaeth glir am C-19 i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
- Yn yr un modd, diweddarwyd gwefannau rhanbarthol ac AMG gyda gwybodaeth ddefnyddiol.
- Mewn sefyllfaoedd brys ac yn amodol ar asesiadau risg, parhaodd ymweliadau â theuluoedd.
- Cysylltodd gwasanaethau yn rhagweithiol gyda theuluoedd a chynnig cyngor ychwanegol yn ddigidol / arlein, cymorth a gweithgareddau yn cynnwys mynediad at yr hyn a ddatblygwyd gan eraill. Er enghraifft, darparodd gwasanaeth seicoleg SEWAS rai gweminarau.
- Newidiodd ein gwasanaethau cymorth newydd TESSA a Connected i weithredu'n rhithwir, a chynyddu'r nifer o deuluoedd, plant a phobl ifanc a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn.
- Roedd ein cyfres o fodiwlau hyfforddi 'Ar Ôl Cymeradwyaeth' i fabwysiadwyr ar gael ar y wefan.
- Roedd cyngor a chymorth hefyd ar gael i deuluoedd wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol. Roedd hyn yn cynnwys llyfr hyfryd dwyieithog 'Dewi'r Diogyn yn Dychwelyd i'r Ysgol' a ysgrifennwyd gan aelod staff yn y gwasanaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.
- Darparwyd trafodaethau gweminar gan AUK.
- Bu i ni barhau gyda'n gwaith datblygu mewnol gyda staff gan gynnwys Cymorth Mabwysiadu a Gwaith Taith Bywyd er mwyn parhau i rannu arferion da a gweithio gyda'n gilydd.
- Lansiwyd ein pedwar Canllaw Arferion Da mewn 2 gynhadledd genedlaethol ym mis Tachwedd, ac yna cafwyd 20+ o ddigwyddiadau gweithredu rhanbarthol.

> "I mi, roedd yn fater o wireddu dymuniad o fy mhlentyndod i wneud gwahaniaeth ym mywyd rhywun … os oes unrhyw un yn ei ystyried, ewch amdani i wneud yr alwad gyntaf, ysgrifennwch yr e-bost hwnnw, ni fyddwch yn difaru."
>
> *Tash – mabwysiadwr sengl a fabwysiadodd 2 blentyn*

## Beth oedd y canlyniad?

**Yn gyffredinol, arhosodd y lefel o geisiadau newydd am asesiadau cymorth mabwysiadu ffurfiol ledled Cymru yr un fath, ar ryw 312.**

Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio un newid arwyddocaol ar lefel ranbarthol, gyda'r ddwy ranbarth lai a llai trefol yn gweld cynnydd yn y galw a dwy o'r rhanbarthau mwy, mwy trefol yn gweld gostyngiad.

Ffactor bellach hefyd, efallai, yw bod y patrwm o wasanaethau yn newid gyda gwasanaethau newydd megis TESSA a Connected; lefelau gwell o gymorth yn gysylltiedig â phontio ynghyd â lleoli plant ar gael yn unol ag angen a heb asesiad ffurfiol.

## Canlyniadau TESSA



**TESSA (Gwasanaethau Therapi, Addysg a Chymorth mewn Mabwysiadu), gwasanaeth a ariennir gan y Loteri ledled y DU, ac sy'n defnyddio cyllid cyfatebol o fuddsoddiad ym mhob rhanbarth i ddarparu gwasanaeth ehangach yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar gyflawniad drwy rieni-partneriaid a delir (mabwysiadwyr profiadol a rhai wedi eu hyfforddi), ac mae'n ymgorffori:**

- Asesiad seicolegol arbenigol
- Cwrs rhianta myfyriol 6 wythnos
- Ynghyd â mynediad at wasanaethau cymorth eraill a argymhellir.

Lansiodd y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2019; erbyn diwedd mis Mawrth 2021 roedd wedi darparu gwasanaeth i 185 o deuluoedd. Mae data canlyniad lefel gwasanaeth yn cael ei gasglu ac mae'n hynod bositif. Mae hefyd yn cael ei werthuso'n academaidd gan Brifysgol Strathclyde.




**Mae CONNECT yn ystod o fentrau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi eu mabwysiadu yng Nghymru. Mae Connected yn gymorth seiliedig ar grŵp ar gyfer plant a phobl ifanc a'r unig adnawdd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc wedi eu mabwysiadu yng Nghymru (yn disodli Talk Adoption). Defnyddiwyd y buddsoddiad i sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru, hefyd drwy drefniant cyllid cyfatebol. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021:**

- Mae 150 o blant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo drwy grwpiau Connected.
- Roedd deg o bobl ifanc 18-25 oed yn cymryd rhan yng ngwaith y cyngor ieuenctid.

At hyn, yn 2021/22 bydd y canlynol yn lansio:

- Dau Gyngor Ieuenctid cysylltiedig ag oedran
- Cynllun llysgenhadon oedolion ifanc a fabwysiadwyd
- Gwasanaeth cyngor a gwybodaeth arlein i blant a phobl ifanc wedi eu mabwysiadu

Mae model cyllid cyfatebol tebyg yn cael ei ddefnyddio i sicrhau ei fod yn cyrraedd cymaint o bobl ag y bo modd.

Ar hyn, ac er gwaethaf y pandemig, mae gwasanaethau rhanbarthol wedi defnyddio capasiti ychwanegol i weithredu dulliau newydd o roi cymorth, gan helpu:

- O leiaf 200 o deuluoedd mabwysiadol a'u plant, gan gynnwys 30 o ddyddiau 'Deall y Plentyn', gwell cymorth adeg pontio ac ymyraethau therapiwtig ychwanegol
- O leiaf 100 o deuluoedd gyda'r dull newydd o gysylltu ynghyd â gwella'r gwasanaeth blwch llythyrau presennol
- Mae'r dull newydd o Waith Taith Bywyd yn parhau i gael ei weithredu gyda 230 neu 82% o blant yn derbyn deunydd Taith Bywyd adeg paru a 151 neu 68% o blant yn derbyn deunydd cyflawn Taith Bywyd yn yr ail adolygiad mabwysiadu.

Mae'r patrwm hwn o wasanaethau wedi ein galluogi i ddatblygu 'Model Gorau Posibl' ar gyfer cymorth mabwysiadu yn ein rhanbarthau a, lle mae'n berthnasol, AMG. Mae'r Model Gorau Posibl yn disgrifio'r hyn a ddylai fodoli ac mae'r gwasanaethau yn meincnodi eu hunain oddi tano i greu cynllun gwella. Mae hyn yn ffurfio sylfaen 'cynnig craidd' a gytunwyd o gymorth i fabwysiadwyr yng Nghymru, sydd ar gael beth bynnag yw'r lleoliad, yr ydym yn anelu at ei ddatblygu yn 2021/22.

## Gwerthusiad annibynnol o gymorth mabwysiadu yng Nghymru

**Rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi gwerthusiad o Gymorth Mabwysiadu yng Nghymru, a ymgymerwyd yn annibynnol ar ein rhan gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brooks. Roedd y gwaith maes a ymgymerwyd o bell ym mis Hydref a Tachwedd 2020, yn cynnwys mwy na 430 o unigolion a oedd yn ymwneud â chymorth mabwysiadu yng Nghymru, gan gynnwys 313 o rieni mabwysiadol.**

Mae'r adroddiad yn darparu:

- Darlun calonogol o welliannau yn argaeledd cymorth mabwysiadu yng Nghymru
- Cynnydd mewn positifedd ymhlith teuluoedd mabwysiadol sy'n gofyn am a derbyn cymorth
- Disgrifiadau o wasanaethau ychwanegol ac arloesol newydd
- Cipolwg arwyddocaol ar anghenion presennol teuluoedd mabwysiadol
- Amlygu'r gwaith pellach sydd angen ei wneud i greu gwasanaethau cyson a chynaliadwy gan gynnwys pwysigrwydd cyllid buddsoddi yn parhau gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – adroddiad Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar Gymorth Mabwysiadu yng Nghymru - Newyddion (adoptcymru.com)




## Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o fabwysiadu ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd

**Lansiwyd ein pedwar Canllaw Arferion Da, sef y cam cyntaf tuag at foderneiddio mabwysiadu yng Nghymru, drwy gyfrwng dwy gynhadledd arlein ym mis Tachwedd 2020, a fynychwyd gan fwy na 320 o weithwyr proffesiynol.**

Dilynwyd hyn gan gyfres o 20+ o weithdai gweithredu ledled Cymru ym mhob rhanbarth, gan gyrraedd 500 aelod staff pellach ar gyfer hyfforddiant manylach.

Comisiynodd AFA Cymru ni i ddatblygu'r canllawiau, a chyflwyno'r digwyddiadau hyn ar:

- Bontio a chymorth cynnar
- Cysylltiad
- Gweithio gyda rhieni biolegol
- Cymorth Mabwysiadu

"Yn yr eiliadau hynny wrth greu'r cyswllt, nid yw byth yn fy synnu. Dywedodd fy mab 'pam wyt ti'n fy nghofleidio mor dynn mam?' Dywedais oherwydd fy mod i'n dy garu'n angerddol ac rydw i yn ei garu, o ddifri.

Er gwaethaf yr anawsterau a'r caledi y mae'r plant hyn wedi bod drwyddynt a'r anawsterau a gawsom wrth geisio diwallu eu hanghenion, ar adegau rydym wedi teimlo ein bod yn suddo, ond ni fyddwn yn newid unrhyw beth. Mae fy mywyd mor llawn nawr."

*Gareth a Clare – a fabwysiadodd 3 sibling*

# Meddwl at y dyfodol

- Parhau i wella'r fframwaith cyfreithiol, polisi a thystiolaeth sy'n effeithio mabwysiadu
- Annog dealltwriaeth a sgiliau'r gweithlu
- Cyd-gynhyrchu a defnyddio gwybodaeth o ymgysylltiad



Gofynnodd y pandemig C-19 am gymaint o bethau gwahanol! Roedd cyfathrebu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghyd ag ymgysylltiad a dylanwad yn bwysicach nag erioed. Ar wahân i'r hyn a ddisgrifiwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad, rydym hefyd wedi:

- Sefydlu hysbysiad ebost rheolaidd ar gyfer aelodau Bwrdd y GMC.
- Sefydlu cyfarfod gweithredol newydd ar y cyd rhwng y rhanbarthau a'r AMG (bob wythnos i ddechrau).
- Blaenoriaethu rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru gan y tîm canolog.
- Datblygu 'Fframwaith Parhad Gwasanaethau' GMC i gefnogi gwasanaethau o ran symud rhwng cyflwyniad gwasanaeth mwy neu lai cyfyngol, fel y gallai fod ei angen wrth i'r pandemig fynd rhagddo, tra'n ymgorffori dysgu ar yr un pryd.
- Cyflwyno trefn fyrrach o gasglu perfformiad.
- Cefnogi ymdrechion AMG i gynnal dilyniant busnes a llif arian, yn uniongyrchol drwy gyfrwng taliadau grant prydlon a thrwy drafod ag eraill.
- Comisiynu tri digwyddiad dysgu i staff i'w cefnogi gyda gweithio yng nghyd-destun Covid, ar ddeddfwriaeth a chanllawiau, symud plant ac asesu mabwysiadwyr yn rhannol arlein.

Ynghyd â hyn, rydym wedi symud ymlaen gyda blaenoriaethau presennol ynghyd ag ystyried rhai newydd wrth iddynt godi. Er enghraifft, Mae Bywydau Duon yn Bwysig.

## Adolygu dirymiadau gorchmynion lleoli

**Ar ôl adolygiad o geisiadau a ymgymerwyd gan CAFCASS Cymru, ymgymerodd y GMC ag arolwg manwl o 46 o blant lle'r oedd y cynllun gwreiddiol ar gyfer mabwysiadu wedi dychwelyd i'r llys yn ddiweddarach a lle cafodd y cynllun ar gyfer mabwysiadu ei newid. Roedd hyn er mwyn ystyried yn fanwl yr amserlenni a bennwyd, neu a gytunwyd, ar gyfer canfod teuluoedd gan y llys; cymryd penderfyniadau; nodweddion y plant dan sylw, a'r goblygiadau ar gyfer parhauster yr oedd gan y cynllun gwahanol hwn ar gyfer y plant dan sylw.**

Canfuwyd:

- Ei bod yn aneglur pam fo amserlenni ar gyfer canfod teuluoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai plant, beth roeddynt yn seiliedig arnynt ac a oeddynt yn galluogi parhauster. Mae data ar amserlenni lleoli yn awgrymu bod 75% o blant yn cael eu lleoli o fewn 12 mis, ond mae amserlenni llawer byrrach yn tueddu i gael eu pennu.

- Roedd penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd priodol ond dim ond rhyw 25% a oedd yn cael eu cyfeirio'n ôl at Gymerwr Penderfyniad yr Asiantaeth, sy'n arfer dda.

- Roedd gan y rhan fwyaf o'r plant yma gymhlethdodau ychwanegol a / neu roeddynt yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd, ond nid oedd cynllun parhauster amgen ar gyfer mwy nag 80% a oedd i aros mewn gofal maeth.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn ag arferion parhauster ar gyfer y plant hynny na allent ddychwelyd i'w teuluoedd biolegol neu gymuned. Bydd y GMC yn datblygu Canllaw Arferion Da ac mae wedi codi'r angen am strategaeth barhauster gliriach gyda Llywodraeth Cymru.



## Dysgu gwersi achos arwyddocaol

**Roedd hyn yn ymwneud â phlentyn wedi'i 'adael gyda'r gwasanaeth' ac a oedd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu drwy drefniadau cynllunio cydamserol. Wedyn, newidiodd y rhiant biolegol eu meddwl a daeth y Llys Teulu i'r darlun, gan benderfynu y dylid dychwelyd y plentyn i'r teulu biolegol. Roedd hyn yn arwyddocaol o ran yr effaith emosiynol ar y teuluoedd dan sylw a'r prinder o hyn yn digwydd mewn termau cyfreithiol a phractis; cafodd gyhoeddusrwydd cenedlaethol.**

Adolygodd yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol yr achos, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol ac ymgynghorwyr. Arweiniodd hyn at:

- Yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn datblygu arferion gweithredol.

- Arolwg o'r canllaw arferion gorau cyfredol 'Good Practice Guidance for Adoption Agencies and CAFCASS: Children Relinquished for Adoption' gan y GMC, CAFCASS ac AWHOCS.

- Datblygu canllawiau ar gynllunio ar gyfer parhauster cynnar i blant drwy fodel cydamserol o'r enw 'Parhauster Cynnar yng Nghymru'. Bydd hwn yn darparu model ar gyfer lleoli plant gyda'r teulu mabwysiadol yn y lleoliad cyntaf nes gellir gwneud newidiadau i'r rheoliadau Maethu i Fabwysiadu nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnig hyn.

## Cytundeb partneriaeth diwygiedig ar gyfer y GMC

Cwblhawyd hwn a'i gyflwyno ar gyfer ei lofnodi a'i weithredu.

## Mae Bywydau Duon yn Bwysig

Mae'r GMC wedi ymuno gyda chyfundrefnau eraill ledled Cymru gan addo delio gyda hiliaeth, cofrestru gydag ymgyrch 'Dim Hiliaeth Cymru' ynghyd â chomisiynu hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol.

# Amdanom ni

Crëwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i wella gwasanaethau i bawb a effeithir gan fabwysiadu yng Nghymru. Lansiwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) ym mis Tachwedd 2014, ac mae'n fenter arloesol i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu. Roedd yn dwyn at ei gilydd wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru mewn strwythur tair rheng sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag Asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru, Gwasanaethau Iechyd ac Addysg, ynghyd ag eraill.

Ar lefel awdurdod lleol, mae pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau i bobl plentyn sy'n derbyn gofal, ac ar yr un pryd yn adnabod a gweithio gyda'r plant hynny ar gyfer y rhain y mae cynllun ar gyfer mabwysiadu yn briodol.

Yn rhanbarthol, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn pump o gyrff cydweithredol rhanbarthol i ddarparu ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob un o'r pump gysylltiadau gyda'r Asiantaethau Mabwysiadu gwirfoddol, Iechyd ac Addysg.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob un yn wahanol, ond maent oll yn darparu:

- Swyddogaethau asiant fabwysiadu ar gyfer plant.
- Recriwtio ac asesu mabwysiadwyr.
- Cynnig cwnsela i rieni biolegol.
- Cynnig cyngor i oedolion sydd wedi eu mabwysiadu.

Mae rhai ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn uniongyrchol, ac mewn eraill mae hyn yn aros gyda'r awdurdodau lleol.

> "Rydw i wedi sylweddoli pa mor amrywiol ydyn ni fel grŵp ac mae pob un o'n teithiau i fabwysiadu yn wahanol."
>
> *Ben ac Adam – a fabwysiadodd eu mab*




@nas_cymru

@nationaladoptionservice

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW
F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
www.adoptcymru.com

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Achieving More Together /
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd